Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesu Cynlluniau Ariannol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 544A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â'r swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Ian Pennington (KPMG), Gwyn Williams (KPMG) a Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad | |
| Cefndir i'n gwaith | 4 |
| Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol | 5 |
| Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo | 5 |
| Yn gyffredinol, mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol | 5 |
| Atodiad 1 | |
| Canlyniadau manwl ein hadolygiad | 7 |

# Adroddiad

## Cefndir i'n gwaith

**1.** Mae rheolaeth ariannol dda yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, ac er mwyn sicrhau y gall awdurdodau barhau i ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol. Bydd yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae rheolaeth ariannol dda yn:

- hanfodol i sicrhau llywodraethu corfforaethol da;
- ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag y mae'n ymwneud â rheoli arian;
- tanategu ansawdd gwasanaethau a gwelliannau i wasanaethau;
- sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; a
- disgyblaeth reoli allweddol.

**2.** Nid yw rheoli ar gyfer yr hirdymor yn ymwneud â rhagweld y dyfodol; mae'n ymwneud â pharatoi ar ei gyfer. Mae cynllunio yn ymwneud â deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau posibl, adolygu'r bylchau posibl rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a datblygu strategaethau arbedion priodol.

**3.** Dylai penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n ymarferol gael eu gwneud ar sail blaenoriaethau strategol yr awdurdod a'i iechyd ariannol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig ystyrlon a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

**4.** Rhwng mis Mai a mis Awst 2014, edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar sefyllfa ariannol awdurdodau a'r ffordd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Ystyriodd y gwaith hwn p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15. Er mwyn llywio barn ar gynllunio ar gyfer cyllidebau a'u cyflawni'n llwyddiannus, ystyriwyd hefyd berfformiad ar gyfer y blynyddoedd ariannol blaenorol 2011-12 a 2013-14.

**5.** Canolbwyntiodd y gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r awdurdod yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?** Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi ein casgliadau ar berfformiad a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol:

- **Perfformiad blaenorol** – a lwyddodd yr awdurdod i nodi'r arbedion roedd angen eu sicrhau rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni; ac, os oedd diffyg, sut yr ymdriniwyd ag ef.
- **Rhagolygon ar gyfer y dyfodol** – a oes gan yr awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, prosesau rheoli ariannol

effeithiol a fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol; ac a oes gan yr awdurdod gynlluniau realistig ar gyfer gwneud yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2014-15 ac a yw'n cymryd camau priodol i'w cyflawni.

**6.** Rydym wedi dadansoddi amrywiaeth o ddata, gan gynnwys cyfrifon cyhoeddedig y Cyngor a'i ffurflenni perfformiad i Lywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol. At hynny, cyfwelwyd â nifer fach o aelodau allweddol o staff ac adolygwyd adroddiadau y mae'r Cyngor a'i bwyllgorau wedi'u hystyried. Nodir ein casgliadau manwl yn Atodiad 1 ac maent yn seiliedig ar y graddau y mae'r Cyngor wedi rhoi prosesau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n ei helpu i sicrhau ei fod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn ei alluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol a'r graddau y mae'n gweithredu'r prosesau hynny.

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

**7.** Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo; ac
- yn gyffredinol, mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol.

### Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo

**8.** Llwyddodd y Cyngor i nodi amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd angen eu gwneud i wneud iawn am y diffyg cyllidebol rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Nid oedd unrhyw arbedion nas nodwyd yr oedd angen eu datblygu pan gymeradwywyd cyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14 a chyflawnwyd gostyngiadau ac arbedion arfaethedig y Cyngor ym mhob un o'r tair blynedd.

### Yn gyffredinol, mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol

**9.** Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol a phrosesau rheoli ariannol effeithiol. Mae ganddo fframwaith ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a chynlluniau realistig i wneud yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2014-15 ac mae'n cymryd camau priodol i'w cyflawni. Mae wedi gwella ei waith cynllunio tymor canolig wrth bennu cyllideb 2014-15 a bydd hon yn parhau i fod yn ddisgyblaeth y mae angen iddi ddatblygu.

## Cynigion ar gyfer gwella

**10.** Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella nac unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

# Atodiad 1

## Canlyniadau manwl ein hadolygiad

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Perfformiad rhwng 2011-12 a 2013-14** | Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo:<br>• Nododd y Cyngor amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol er mwyn gwneud iawn am y diffygion yng nghyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14. Yn 2011-12 nododd y Cyngor arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.954 miliwn a llwyddodd i'w cyflawni, gan gynnwys arbedion corfforaethol gwerth £1.189 miliwn. Fodd bynnag, cynyddodd costau ychwanegol a gododd yn ystod y flwyddyn y diffyg, yr ymdriniwyd ag ef drwy gynyddu cyfanswm y cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn o £356,000 i £550,000. Nid yw'r cynnydd o £194,000 yn berthnasol o safbwynt archwilio.<br>• Yn 2012-13 nododd y Cyngor arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £3.569 miliwn a llwyddodd i'w cyflawni. O'r arbedion hynny ariannwyd £922,000 o gronfeydd wrth gefn fel y cynlluniwyd yng nghyllideb 2012-13. Cafwyd amrywiant refeniw net yn y gyllideb o £85,000 yn unig.<br>• Nododd y Cyngor yn gywir ddiffyg o £7.193 miliwn yng nghyllideb 2013-14. Gwnaed iawn am y diffyg iawn drwy'r canlynol:<br>– cynnydd o £1.695 miliwn (3.88 y cant) yn y Dreth Gyngor;<br>– arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.157 miliwn;<br>– cyfraniad gwerth £114,000 o gronfeydd wrth gefn; a<br>– rhyddhau darpariaeth gwerth £227,000 ar gyfer colledion ar gasglu Treth Gyngor. | • Nododd y Cyngor yn gywir y diffyg cyllidebol yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.<br>• Nododd y Cyngor amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol er mwyn gwneud iawn am y diffyg cyllidebol yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.<br>• Cyflawnwyd gostyngiadau/arbedion arfaethedig y Cyngor yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Cynllunio Ariannol Strategol** | Mae fframwaith corfforaethol y Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol strategol yn ddigonol ond gellid gwneud rhai gwelliannau:<br>• Datblygodd y Cyngor amrywiaeth o gynigion cyllidebol a oedd yn adlewyrchu ei Gynllun Corfforaethol a'i flaenoriaethau. Mae'r fframwaith yn cynnwys ymgysylltu'n llawn ag Aelodau (e.e. gweithdai cyllidebol i'r Aelodau a gweithgorau).<br>• Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012/2017. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi blaenoriaethau allweddol y Cyngor y mae am roi sylw arbennig iddynt dros y pum mlynedd nesaf er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac yn ymweld â hi. Mae'r Cyngor wedi seilio'r blaenoriaethau ar wyth Canlyniad ar gyfer Dinasyddion sy'n nodi'r buddiannau y mae'n ceisio eu sicrhau ar gyfer pobl Sir Conwy.<br>• Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn ffurfiol ym mis Medi 2012. Bob blwyddyn ariannol mae'r Cyngor yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol er mwyn ystyried a yw'r amcanion gwella yn briodol o hyd i ddiwallu anghenion y sir ac a ellir eu cyflawni o hyd o ystyried yr hinsawdd economaidd. Amcanion Gwella yw meysydd blaenoriaeth allweddol y Cyngor ar gyfer gwella lle y bydd angen blaenoriaethu adnoddau.<br>• Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad ar waith a ddefnyddir ganddo i adolygu a monitro'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau'r cynllun gwasanaethau, mesurau perfformiad, cyflawniadau a meysydd i'w gwella. | • Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol digonol ar gyfer cynllunio ariannol.<br>• Mae gan y Cyngor weledigaeth a nodau clir ac adlewyrchir y nodau cyffredinol mewn cyfres gydlynol o amcanion gwella.<br>• Mae fframwaith cynllunio corfforaethol y Cyngor yn helpu i gyflawni gweledigaethau, nodau ac amcanion gwella yn effeithiol.<br>• Mae'r amcanion gwella yn gysylltiedig â chynlluniau gwasanaethau a chynlluniau ariannol.<br>• Mae'r broses o bennu cyllideb yn helpu i gyflawni gweledigaethau, nodau ac amcanion gwella corfforaethol.<br>Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn dylanwadu ar y gyllideb a'r cynlluniau arbedion blynyddol.<br>• Mae'r Cyngor wedi gwella ei broses cynllunio ariannol Tymor Canolig ond bydd angen iddo ddatblygu o hyd wrth i'r heriau ariannol barhau. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Cynllunio Ariannol Strategol (parhad)** | • Mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015-16 a 2017-18 fel rhan o'r papurau cyllidebol ar gyfer 2014-15. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcangyfrifon o'r arbedion a allai ddeillio o'r gwahanol fentrau sy'n mynd rhagddynt. Wrth edrych ar ei waith cynllunio ariannol o safbwynt tymor hwy, mae'r Cyngor yn amcangyfrif, dros y tair blynedd o 2015-16, y bydd angen iddo sicrhau incwm ac arbedion ychwanegol gwerth tua £29.5 miliwn. Disgwylir i tua £14.9 miliwn ddeillio o raglenni trawsnewid, gyda £14.6 miliwn arall yn deillio o gyfuniad o arbedion cost eraill a chodiadau yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol.<br>• Mae gan y Cyngor nifer o bolisïau ar reoli ei gyllid ac mae'r cyfrifoldebau o ran monitro cyllidebau yn glir.<br>• Mae fframwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn cynnwys ymgynghori'n eang ag aelodau trwy weithdai cyllidebol. Mae'r aelodau yn chwarae rhan weithredol ac yn herio cynigion.<br>• Mae proses sefydledig ar gyfer cymeradwyo cyllideb fanwl a phennu'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bolisi penodol ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae adolygiad y Cyngor o gronfeydd wrth gefn a balansau yn broses barhaus a cheir cyfeiriadau blynyddol yn yr adroddiadau ar gyllidebau.<br>• Fel y nodir yn yr '*Adroddiad Gwella Blynyddol*' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, mae'r Cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllideb 2014-15 er mwyn cael amser i wneud gwaith cynllunio pellach - mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn ateb cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Roedd cronfa gyffredinol wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd 2012-13 yn cyfateb i ddim ond 1.1 y cant o'r gwariant gros, y gyfran isaf o blith yr holl gynghorau yng Nghymru. Cynyddodd cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd yn 2009-10 a 2010-11 ond gwnaethant ostwng yn 2011-12 a 2012-13, er eu bod yn dal i fod yn uwch na ffigur 2009. Roedd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2013 yn cyfateb i 8.5 y cant o'r gwariant gros, a oedd gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 11.3 y cant. | • Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.<br>• Ystyrir priodolrwydd cronfeydd wrth gefn yn rheolaidd gan swyddogion ac Aelodau. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Rheoli Ariannol** | • Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol.<br>• Mae'r Tîm Cyllid yn meddu ar gymwysterau proffesiynol ac mae'n brofiadol iawn.<br>• Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys adran ar gyllidebau sy'n ymdrin â chynllunio ariannol a chyllidebu; rheolaeth gyllidebol; trosglwyddo a chyllidebau atodol eithriadol. Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gyfrifol am reoli incwm a gwariant o fewn eu maes a monitro perfformiad, gan ystyried gwybodaeth ariannol a ddarperir gan y Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Effeithlonrwydd. Dylai pob Pennaeth Gwasanaeth hysbysu'r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Effeithlonrwydd ac wedyn y Cabinet am amrywiadau o fewn eu meysydd eu hunain. Dylent hefyd gymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i osgoi gwario mwy na'u cyllideb a thynnu sylw'r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Effeithlonrwydd at unrhyw broblemau. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gellir cymeradwyo trosglwyddiadau.<br>a) nid yw'r gwariant arfaethedig yn groes i bolisi'r Cyngor;<br>b) nid ydynt yn groes i Gynlluniau Busnes Gwasanaethau a gymeradwywyd; ac<br>c) ni chaiff y baich refeniw ar y gwasanaeth yn y dyfodol ei gynyddu'n sylweddol.<br>• Nid oes gan y Cyngor unrhyw Fframwaith Ffioedd a Thaliadau ffurfiol sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer cytuno ar ffioedd a thaliadau a godir gan y Cyngor a'u hadolygu'n rheolaidd, ond mae ei fframweithiau cynllunio busnes presennol a blaenorol yn pwysleisio'r cysyniad o wneud y gorau o incwm yn seiliedig ar brofiad o'r farchnad/gwybodaeth am wasanaethau fel un ffordd o sicrhau gostyngiadau cyllidebol.<br>• Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn effeithiol ar y cyfan.<br>• Mae'r Cyngor wedi ymdrin â gwendidau rheoli blaenorol o ran contractio a chaffael i raddau helaeth ac mae'n gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion sy'n weddill. | • Mae polisïau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn.<br>• Mae polisi rheoli cyllidebau'r Cyngor yn briodol ac effeithiol. Ategir y polisi gan bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr i Aelodau, swyddogion a deiliaid cyllidebau .<br>• Nid oes gan y Cyngor unrhyw Fframwaith Ffioedd a Thaliadau ffurfiol ond mae ei fframweithiau cynllunio busnes presennol a blaenorol yn pwysleisio'r cysyniad o wneud y gorau o incwm yn seiliedig ar brofiad o'r farchnad/gwybodaeth am wasanaethau fel un ffordd o sicrhau gostyngiadau cyllidebol.<br>• Mae gan y Cyngor reolaethau ariannol effeithiol ac mae'n rheoli materion ariannol a materion sy'n ymwneud â'r gyllideb yn effeithiol. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Llywodraethu Ariannol** | • Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor ar gyfer adolygu a herio perfformiad yn ddigonol ond gellid gwneud rhai gwelliannau:<br>• Fel y Rheoliadau Ariannol mae terfynau cymeradwyo y cytunwyd arnynt ar gyfer trosglwyddiadau, gan ddibynnu ar y symiau a ph'un a ydynt yn cael eu trosglwyddo o fewn gwasanaethau neu rhwng gwasanaethau.<br>Dim ond Penaethiaid Gwasanaethau a all gymeradwyo tanwariant/gorwariant o hyd at £50,000, ar yr amod y gellir gwneud hyn o fewn eu maes gwasanaeth eu hunain. Lle ceir unrhyw drosglwyddiadau sy'n fwy na'r terfynau a bennwyd y mae angen iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cabinet, mae'r Adran Gyllid yn llunio Adroddiad Monitro Cyllideb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor perthnasol. Caiff Adroddiad Monitro Cyllideb ei lunio hefyd ar fisoedd lle nad yw trosglwyddiadau yn fwy na £100,000 ond lle yr ystyrir o hyd y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am weithgarwch diweddar. Nid oes unrhyw drothwy gofynnol ar gyfer hyn ac nid ystyrir bod angen llunio'r adroddiad bob mis. Yn y pen draw mater i Gyfarwyddwr Strategol Cyllid yw penderfynu a ddylid cyflwyno adroddiad.<br>• Adolygir Adroddiadau Monitro Cyllideb gan y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ac fe'u cyflwynir wedyn i'r Cabinet er mwyn iddo gymeradwyo'r trosglwyddiadau.<br>Dengys yr adroddiad y gyllideb wreiddiol ar gyfer y flwyddyn, y gyllideb a ailddatganwyd ar ôl unrhyw drosglwyddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma a'r alldro terfynol amcanestynedig ar ôl i'r trosglwyddiadau arfaethedig gael eu cymeradwyo. Mae naratif i esbonio'r rheswm dros bob trosglwyddiad hefyd. Pryd bynnag y cymeradwyir adroddiad monitro cyllideb gan y corff perthnasol, yr adroddiad hwnnw fydd y 'gyllideb ddiwygiedig'.<br>Cyflwynir Adroddiad Alldro Terfynol i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet ar ddechrau Gorffennaf, ar ôl llofnodi datganiadau ariannol, er mwyn iddynt ei gymeradwyo. | • Mae'r fframwaith ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol yn ddigonol.<br>• Caiff perfformiad cyllidebol ei fesur, ei fonitro a'i gofnodi'n rheolaidd.<br>• Mae lle i gynnwys datganiad monitro cyllideb misol sy'n dangos ffigurau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma a chofnodi gwariant, ynghyd â gwariant gwirioneddol hyd yma.<br>• Caiff Penaethiaid Gwasanaethau eu dwyn i gyfrif.<br>• Mae gan y Cyngor hanes da o gofnodi perfformiad cyllidebol yn gywir.<br>• Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Llywodraethu Ariannol (parhad)** | Fodd bynnag:<br>– nid yw'r adroddiad monitro cyllideb a gyflwynir i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn dangos y ffigurau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma;<br>– dim ond os oes gorwariant/tanwariant sylweddol a cheisiadau am drosglwyddiadau y cyflwynir adroddiadau cyfrifon rheoli i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet, ac nis cyflwynir bob mis, sy'n golygu bod risg nad yw pwyllgorau yn craffu ar gyfrifon rheoli yn ddigon manwl; ac<br>– ni chaiff mantolen chwarterol ei pharatoi.<br>• Rhoddir gwybodaeth am berfformiad cyllidebol a pherfformiad gwasanaethau mewn Briff Cyllid sy'n crynhoi'r prif faterion; mae hyn yn rhoi dadansoddiad o'r gwasanaeth cyfan. Yn ogystal, ceir datganiad monitro cyllideb sy'n dangos yr alldro amcanestynedig yn erbyn y gyllideb â therfyn arian parod. Ni chaiff y dadansoddiad hwn ei weld gan yr Aelodau na'i gyflwyno iddynt a dim ond sefyllfa net a ddangosir ganddo. Nid yw'n cofnodi incwm a gwariant gros ac nid yw'n rhoi'r ffigurau gwirioneddol hyd yma. Fodd bynnag, mae'n rhagamcanu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a dengys newidiadau i'r gyllideb. Cyflwynir adroddiad ar berfformiad cyllidebol i'r Pwyllgor Craffu deirgwaith y flwyddyn; mae hyn yn rhoi gwybodaeth allweddol i'r Aelodau am orwariant cyllidebol amcanestynedig ac yn esbonio'r rhesymau drosto. Mae adroddiadau ffurfiol i'r Aelodau ar lefel uchel iawn ac maent yn cynnwys sefyllfa alldro ariannol gryno, ategol drwy ddatgan y gyllideb refeniw a darparu tabl sy'n dadansoddi achosion o danwario a gorwario. Nid ategir yr adroddiadau hyn gan ddangosyddion perfformiad allweddol priodol.<br>• Caiff Penaethiaid Gwasanaethau eu dwyn i gyfrif. Caiff deiliaid cyllidebau (Penaethiaid Gwasanaethau) eu dwyn i gyfrif gan yr Adran Gyllid bob mis ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflenni misol a rhoi esboniadau o ragolygon o orwariant a thanwariant yn erbyn y gyllideb, mewn proses a oruchwylir gan y Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd. Cyflwynir gwybodaeth ariannol gyfnodol (ar gyfer y gyllideb refeniw a gwaith datblygu cyfalaf) i'r Cabinet a POSC. Mae gan y Cyngor hanes da o gofnodi perfformiad cyllidebol yn gywir a chyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt. | |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Cynlluniau Arbedion Cyfredol 2014-15** | Mae cynlluniau arbedion cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol:<br>• Mae'r broses cynllunio ariannol tymor canolig yn rhoi ystyriaeth gynhwysfawr a rhesymol i oblygiadau tymor hwy cyfraddau llog, y mynegai prisiau, dyraniadau demograffig, a mentrau polisi gan y Cyngor a'r Llywodraeth ac ymrwymiadau hysbys na ellir eu hosgoi. Mae'r Cyngor o'r farn bod ei drefniadau cadarn yn cael eu tanseilio gan ddiffyg eglurder ac amseroldeb setliadau ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig, gan Lywodraeth Cymru.<br>• Ymgorfforodd Cyllideb Refeniw 2014-15 dybiaethau call a rhesymol ynghylch chwyddiant. Mae gwaith cynllunio cyllidebol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 yn defnyddio cyfres wedi'i diweddaru o dybiaethau, y mae'r Cyngor yn bwriadu ei diweddaru wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.<br>• Mae cyfanswm yr arbedion targed ar gyfer 2014-15, sef £14.7 miliwn, wedi'i nodi. Mae tybiaethau cynhwysfawr a rhesymol wedi'u gwneud wrth nodi'r diffyg ariannol ar gyfer 2014-15, megis tybio y bydd chwyddiant cyflogau yn cyfateb i un y cant.<br>• Mae pwysau hysbys o ran costau wedi'u hystyried: Mae gan y Cyngor syniad clir o gost debygol setlo hawliadau Cyflog Cyfartal ac mae ganddo gynlluniau i ariannu'r taliadau yn ystod 2014-15. Cytunwyd ar y cynllun statws sengl ac mae cronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi'i sefydlu.<br>• Mae effaith newid demograffig wedi'i gostio. Mae 25.7% o boblogaeth Conwy, sy'n cyfateb i 29,800 o bobl, yn 65 oed a throsodd a hon yw'r ganran uchaf yng Nghymru. Rhagamcenir y bydd nifer y bobl oedrannus yn y sir yn cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf oherwydd disgwyliad oes uwch a'r ffaith y bydd y genhedlaeth a aned wedi'r ail ryfel byd yn dechrau ymddeol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y bobl dros 65 oed i 34,000 a nifer y bobl dros 85 oed i 5,900 erbyn 2023. Ar yr un pryd mae nifer y plant dan 16 oed yn gostwng o 20,200 yn 2001 i 19,000 yn 2013.<br>• Mae effaith galw cynyddol am wasanaethau wedi'i chostio, yn arbennig pwysau na ellir eu hosgoi oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau Gofal Cymdeithasol.<br>• Nid oes unrhyw ymarfer misol ar wahân sy'n targedu targedau'r cynlluniau arbedion yn unig. | • Mae'r Cyngor wedi nodi diffygion cyllidebol a thargedau arbedion ar gyfer 2014-15 a'r tair blynedd ganlynol.<br>• Mae tybiaethau cynhwysfawr a rhesymol wedi'u gwneud i nodi'r diffyg(ion) yn 2014-15.<br>• Mae data cadarn yn ategu'r tybiaethau ynghylch chwyddiant a ddefnyddir wrth bennu cyllidebau; mae'r tybiaethau a ddefnyddir gan y Cyngor yn rhesymol ac yn gall.<br>• Mae disgrifiad clir o ble y caiff arbedion eu gwneud a chytunir ar symiau penodol yn erbyn pob eitem fel rhan o'r gyllideb flynyddol.<br>• Nodir effaith arbedion ac a ellir eu cyflawni. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Cynlluniau Arbedion Cyfredol 2014-15 (parhad)** | • Mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn un CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol):<br>– mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn benodol; mae'n esbonio'n glir lle y caiff arbedion eu gwneud ac yn cynnwys targedau arbedion ar gyfer pob eitem;<br>– mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn fesuradwy; mae'r Cyngor wedi asesu effaith yr arbedion, wedi gwerthuso'r risgiau ac wedi ystyried cynlluniau lliniaru; ac<br>– mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn heriol ond gellir ei gyflawni.<br>• Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n ei wynebu.<br>• Mae perfformiad hanesyddol yn awgrymu y bydd y Cyngor yn cyflawni ei darged ar gyfer arbedion. Mae Menter Arbedion fanwl a CAMPUS ar waith ar gyfer 2014-15 mewn dogfen annibynnol sydd hefyd wedi'i chynnwys yn y broses cynllunio ariannol tymor canolig a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflwyno Adroddiadau ar Wasanaeth (SeRCOP) ar gyfer 2014-15. Nid oes unrhyw beth i awgrymu na ellir sicrhau'r gostyngiadau/arbedion arfaethedig ar gyfer 2014-15. | • Mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn un CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol);<br>• Nid yw'r gweithdrefnau a'r polisïau sydd ar waith yn nodi unrhyw faterion sy'n awgrymu na ellir cyflawni'r cynllun arbedion.<br>• Mae perfformiad hanesyddol yn awgrymu y bydd y Cyngor yn cyflawni ei darged ar gyfer arbedion. Mae Menter Arbedion fanwl a CAMPUS ar waith ar gyfer 2014-15 mewn dogfen annibynnol sydd hefyd wedi'i chynnwys yn y broses cynllunio ariannol tymor canolig a'r SeRCOP ar gyfer 2014-15. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk